Y Prif Swyddog Cyllid,

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
Awdurdodau Tân Cyfun Cymru
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parc Cathays / Cathays Park,
Caerdydd / Cardiff,
CF10 3NQ.

Dyddiad/Date: 04 Gorffennaf 2025

Annwyl Gyfaill,

## Set ffurflenni alldro refeniw blynyddol, 2024-25

Cyn hir, byddwn yn anfon y ffurflenni Alldro Refeniw, ar ffurf dolen at daenlen Excel, ynghyd â chanllawiau llawn, at ein person cyswllt yn eich adran gyllid.

Sylwch fod rhaid darparu data alldro refeniw i Lywodraeth Cymru o dan adran 168 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

### Sut y caiff y data eu defnyddio

Mae'r data a gesglir ar y ffurflenni alldro cyfalaf yn rhan hanfodol o'r cyfrifiadau ar gyfer Setliad y Grant Cynnal Refeniw. Oherwydd hyn, dylid pwysleisio bod angen cwblhau'r ffurflenni hyn yn gywir ac yn brydlon.

Caiff y ffigurau a ddarperir ar y ffurflenni hyn eu defnyddio'n helaeth o fewn Cyfrifon Gwladol ac o fewn Llywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau o ran gwariant refeniw a chyllido, ac i asesu effeithiau polisïau'r Llywodraeth.

Cyhoeddir crynodeb o'r wybodaeth mewn datganiad ystadegol cyntaf ac mewn rhagor o fanylder ar wefan StatsCymru.

### Llenwi'r Ffurflenni

Rydym yn argymell bod swyddogion sy'n gyfrifol am lenwi'r ffurflenni yn darllen y canllawiau perthnasol i gyd cyn eu llenwi.

Mae'n un o ofynion yr archwiliad fod pob rhan o'r set o ffurflenni'n cael ei llenwi â data, gan ddefnyddio sero lle y bo angen.

Dylid cofnodi pob gwariant (a grant) Dechrau'n Deg, Canolfannau Plant Integredig, Tîm o Amgylch y Teulu a Blynyddoedd Cynnar fel gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau triniaeth gyson ar draws yr awdurdodau.

Dylid cofnodi'r gwariant hwn fel gwasanaethau cymdeithasol nad ydynt o fewn gwasanaethau addysg.

### Materion eraill

Lle bo gwasanaethau wedi cael eu contractio allan, cyfrifoldeb yr awdurdod yw sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei ddarparu iddo er mwyn gallu llenwi'r ffurflenni.

**Terfyn amser**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod taenlen wedi'i chwblhau ar gyfer y set gyfan o ffurflenni yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad isod erbyn **8 Awst 2025**.

Mae'n hynod bwysig fod y ffurflen hon yn cael ei chyflwyno'n brydlon, gan y bydd ein cydweithwyr yn yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol yn defnyddio data alldro refeniw mwy diweddar wrth wneud y cyfrifiadau ar gyfer y Setliad. Felly, bydd angen iddynt weld y data yn fuan wedi'r dyddiad cwblhau.

Bydd data setliad yn cael ei gyflwyno i'r is-grŵp Dosbarthu (DSG) ym mis Medi 2025.

Os yw awdurdodau'n debygol o gael anhawster cwblhau'r ffurflenni o fewn y terfyn amser, dylent roi gwybod inni cyn gynted â phosibl.

**Manylion Cyswllt**

Anfonwch gopi o'r daenlen wedi'i chwblhau erbyn 8 Awst 2025, ac unrhyw ymholiadau neu ohebiaeth arall, yn y lle cyntaf at: YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru

**Ymholiadau dros y ffôn:** Frank Kelly – 03000 255673 / Jack Tennant - 03000 259221

**Cyfeiriad post:** Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Diolch ichi am eich cydweithrediad.

Cofion cynnes,

Anthony Newby
Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government